Vaughan Gething AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG/01445/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deisebau

11 Ionawr 2021

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 24 Mawrth yn gofyn am ragor o wybodaeth yn dilyn fy ymateb blaenorol yn ymwneud â Deiseb P-05-812 a gweithredu canllawiau NICE ar gyfer Anhwylder Personoliaeth Ffiniol. Ymddiheuraf am yr oedi wrth ateb.

O ran yr argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn Natganiad Sefyllfa Coleg Brenhinol Seiciatreg ar Anhwylderau Personoliaeth, rydym wedi gofyn i Rwydwaith Iechyd Meddwl y GIG adolygu'r datganiad ac ystyried a oes angen unrhyw gamau penodol ychwanegol yng Nghymru.

Canllawiau yn unig yw canllawiau clinigol NICE ac felly nid ydynt yn orfodol i'w gweithredu gan sefydliadau'r GIG yng Nghymru. Wedi dweud hynny byddem yn disgwyl i bob sefydliad ystyried canllawiau perthnasol NICE wrth gynllunio a darparu gwasanaethau'r GIG ac adlewyrchu hyn fel rhan o'u cynlluniau integredig. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda Hwylusydd Gweithredu NICE i Gymru sy'n gyfrifol am gefnogi timau yng Nghymru i wneud y defnydd gorau o gynhyrchion NICE i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel ochr yn ochr â safonau perthnasol eraill wrth gynllunio gwasanaethau ar gyfer eu poblogaethau.

Yn ogystal, mae NICE ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wedi llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn ddiweddar ac maent yn ymchwilio i opsiynau i ystyried gweithredu canllawiau NICE yn fwy systematig fel rhan o'r broses arolygu.

Yn gywir,

Vaughan Gething AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.